



Adolygiad cynnwys plant

Ein hymateb i gynlluniau ITV, Channel 4 a Channel 5



Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Adolygiad Ofcom o gynnwys i blant	2

1. Trosolwg

Gyda'i gilydd mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyfrifoldeb i ddarparu amrywiaeth o gynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant.

Rydym wedi cynnal adolygiad o raglenni plant ar y teledu ac ar-lein y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol. Gwnaethom gyhoeddi ein canfyddiadau ym mis Gorffennaf 2018. Daethom o hyd i dri phrif faes a oedd yn peri pryder yng nghyswllt lefel y ddarpariaeth rhaglenni i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, a gofynnwyd i ITV, Channel 4 a Channel 5 ymateb erbyn diwedd mis Mawrth 2019.

Mae'r ddogfen hon yn nodi barn Ofcom ynghylch eu hymatebion, ynghyd â'r camau nesaf. Rydym ni wedi cyhoeddi eu llythyrau ymateb fel atodiad i'r ddogfen hon.

Ein penderfyniad – yn gryno

Mae ITV, Channel 4 a Channel 5 wedi nodi cynlluniau newydd ar gyfer gwella eu darpariaeth o gynnwys i blant.

Yn eu hymatebion i Ofcom, roedd pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi ailddatgan eu hymrwymiad i ddarparu cynnwys i blant. Mae pob darlledwr hefyd wedi ymrwymo i greu a buddsoddi mwy mewn rhaglenni gwreiddiol o'r DU sy'n cael eu cynhyrchu'n arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn y DU, gan gynnwys rhaglenni sy'n defnyddio actorion, adloniant a newyddion.

Gyda'i gilydd, rydym yn teimlo bod y cynlluniau hyn yn ymateb yn gadarnhaol i'r pryderon y gwnaethom dynnu sylw atynt yn ein Hadolygiad o Gynnwys i Blant y llynedd.

Byddwn yn monitro sut y bydd y darlledwyr yn mynd ati i roi eu cynlluniau ar waith, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn eu harddegau yn mwynhau amrywiaeth o raglenni o ansawdd uchel gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

2. Adolygiad Ofcom o gynnwys i blant

Cefndir yr adolygiad

Lansiodd Ofcom adolygiad o gynnwys i blant ar 29 Tachwedd 2017 er mwyn ystyried y rhaglenni sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd i blant dan 16 oed yng nghanol newidiadau yn arferion cynulleidfaoedd. Cynhaliwyd yr adolygiad o dan bwerau a roddwyd i Ofcom o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 ac mae wedi cael ei fframio o fewn ein dyletswydd ehangach i ystyried a yw'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, o'u hystyried gyda'i gilydd, yn cynnwys nifer ac amrywiaeth addas o raglenni gwreiddiol ac o ansawdd uchel ar gyfer plant a phobl ifanc.

Roedd yr adolygiad o gynnwys i blant yn canolbwyntio ar ddarparu rhaglenni i blant gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol: ITV, Channel 4 a Channel 5. Yn ein dadansoddiad, gwnaethom ystyried ein hymchwil helaeth ar agweddau a defnydd plant o gyfryngau, ynghyd â data a roddwyd i ni gan ddarlledwyr ynghylch eu darpariaeth a buddsoddiad mewn cynnwys i blant.

Nid oedd y BBC yn rhan o gwmpas yr adolygiad hwn wrth i ni ystyried sut mae'n darparu ar gyfer plant fel rhan o'n cyfrifoldebau neilltuol o dan Siarter a Chytundeb y BBC. Fodd bynnag, rydym yn nodi mai'r BBC yw'r darparwr pwysicaf o ran rhaglenni gwreiddiol i blant yn y DU; ac mae BBC Alba ac S4C hefyd yn gwneud cyfraniadau hanfodol i'r dirwedd rhaglenni plant ehangach, drwy ddarparu cynnwys gwreiddiol o bob math yn Gymraeg a Gaeleg.

Gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad ym mis Gorffennaf 2018. Gwnaethom ganfod fod y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i chwarae rhan arbennig mewn cyfryngau ym mywydau plant, drwy ddarparu rhaglenni y mae llawer yn eu gwyllo ac yn ymddiried ynddynt. Fodd bynnag, mae arferion gwyllo wedi newid yn aruthrol gyda thwf sylweddol mewn gwyllo ar-lein ac ar-lein, wedi'i gyfuno â phwysau masnachol sydd wedi arwain at ostyngiad mewn darpariaeth a buddsoddiad mewn rhaglenni plant.

Gwnaethom nodi tri maes penodol sy'n peri pryder yng nghyswllt lefel bresennol y ddarpariaeth rhaglenni i blant:

- a) diffyg rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n cael eu gwneud yn benodol ar gyfer plant hŷn ar draws pob genre rhaglen.
- b) ystod gyfyngedig o raglenni i blant sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas.
- c) ystod gyfyngedig o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant ar gael sy'n caniatáu i blant y DU weld eu bywydau, yn ei holl amrywiaeth, wedi'i adlewyrchu ar y sgrin.

Roeddem wedi ysgrifennu at ITV, Channel 4 a Channel 5, yn gofyn iddynt ddatblygu a rhannu eu cynlluniau i fynd i'r afael â'n pryderon erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Hefyd, gwnaethom gomisiynu ymchwil newydd er mwyn deall yn well pam fod plant yn cael eu denu at fideos ar-lein,

sut maen nhw'n eu gwyllo a pham maen nhw'n eu dewis.¹ Cyhoeddwyd yr ymchwil hwn ochr yn ochr â'n hadroddiadau llythrennedd plant yn y cyfryngau ym mis Ionawr 2019.

Cyd-destun y Farchnad

Mae gwariant darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ar gynnwys i blant yn y DU wedi disgyn

Mae'r gwariant blynyddol cyfun ar raglenni plant newydd wedi'u creu yn y DU gan sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi gostwng o £116m yn 2006 i £70m yn 2017.² Mae'r ffigurau gwariant hyn yn ymwneud â theledu sy'n cael ei ddarlledu yn unig ac nid yw'n cynnwys cyfraniadau at y gost o gynhyrchu gan drydydd partion, fel darlledwyr a chwmnïau cynhyrchu annibynnol dramor, o dan drefniadau cynhyrchu ar y cyd. Byddwn yn cyhoeddi data gwariant 2018 yn nes ymlaen yn yr haf.

Mae plant yn gwyllo llai o deledu a ddarllidir, ond mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal yn cael eu hystyried yn werthfawr iawn

Mae nifer fawr yn dal i wyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu, ond mae'r niferoedd hynny'n disgyn, yn enwedig ymhlith cynulleidfaoedd ifanc. Yn 2018, roedd 79.2% o blant ar gyfartaledd yn gwyllo teledu a ddarllidir bob wythnos, sef gostyngiad o 3.3 pwynt canran o'r flwyddyn flaenorol.³ Mae hanner y plant rhwng 5-15 oed hefyd yn gwyllo gwasanaethau teledu fideo ar-alw fel Netflix, ac mae YouTube yn dod yn ddewis cyntaf fel llwyfan gwyllo, gan ddod yn fwy poblogaidd ymysg plant 8-11 oed.⁴ Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn dal i gael canmoliaeth uchel gan rieni a gofaluwr, gyda 81% yn credu bod sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn llwyddo i 'ddarparu amrywiaeth helaeth o raglenni o ansawdd uchel wedi'u creu yn y DU ar gyfer plant'.⁵

Mae rhai plant yn teimlo nad oes digon o raglenni sy'n cynnwys pobl yr un fath â nhw

Mae ein hymchwil yn 2018 yn parhau i ddangos bod plant yn dymuno gweld cynnwys yn y DU sydd wedi'i greu ar eu cyfer. Yn 2018, dywedodd tua thraean o blant 8-15 oed nad oes digon o raglenni gyda phlant yr un fath â nhw, ac nid oedd y ffigur hwnnw wedi newid ers 2017. Mae traean y plant 8-11 oed, ac ychydig dan hanner y plant 12-15 oed, yn credu nad oes digon o raglenni sy'n dangos plant sy'n byw yn yr un rhan o'r wlad â nhw ac mae 35% o blant 8-11 oed a 36% o'r rhai 12-25 oed yn teimlo nad oes digon o raglenni sy'n dangos plant sy'n edrych yn debyg iddyn nhw.

¹ Life on the small screen: What children are watching and why

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0021/134832/Ofcom-childrens-content-review-Publish.pdf

² Ofcom, 2018. Cyfryngau'r Genedl – y DU: 2018. Ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf

³ BARB. Children (aged 4-15), average weekly reach criteria: 15+ minutes.

⁴ Ofcom, 2019. Children and Parents: Media Use and Attitudes Report 2018 yn:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0024/134907/Children-and-Parents-Media-Use-and-Attitudes-2018.pdf

⁵ Ofcom, 2018. Cyfryngau'r Genedl: 2018. Ar gael yn:

https://www.ofcom.org.uk/_data/assets/pdf_file/0014/116006/media-nations-2018-uk.pdf

Mae plant yn gwerthfawrogi dewis a'r rhyddid i ddewis beth maen nhw'n ei wyllo

Fel rhan o'n hadolygiad o gynnwys i blant, gwnaethom gomisiynu ymchwil ansoddol newydd i edrych ar y math o gynnwys mae plant yn ei wyllo ar-lein, sut maen nhw'n edrych arnynt, a'r rhesymau pam eu bod yn dewis mathau gwahanol o gynnwys.⁶

Roedd y canfyddiadau'n ategu'r ffaith bod plant yn gwerthfawrogi gallu gwyllo cynnwys pryd bynnag a sut bynnag y byddant yn dewis. Yr oedd plant yn arbennig yn gwerthfawrogi YouTube a Netflix am ddarparu rheolaeth unionsyth dros yr hyn y maent yn ei wyllo, a mynediad didrfferth at gynnwys diddiwedd, wedi'i bersonoli, fe ymddengys. Roedd rhai rhieni wedi lleisio pryderon ynghylch yr hyn y mae plant yn ei wyllo'n annibynnol ar YouTube neu Netflix ar ddyfeisiau personol. Mae'r plant yn yr astudiaeth yn dal i wyllo teledu sy'n cael ei ddarlledu, ond mae hyn yn aml yn cael ei arwain gan rieni. Ystyriwyd ei fod yn gyfle i'r teulu ddod ynghyd i wyllo operâu sebon, cwisiau neu raglenni yr oedd yn rhai eu gwyllo fel *Strictly Come Dancing* neu *The X Factor*.

Tueddiadau yn y farchnad ehangach

Yn ystod ein hadolygiad, gwnaeth nifer o randdeiliaid dynnu sylw at yr heriau sylweddol yn y farchnad gyfredol. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn cystadleuaeth, a hynny ar gyfer gwylwyr a refeniw, yn ogystal ag amodau economaidd ehangach sy'n cynnwys y risg o ddirywiad strwythurol yn y farchnad hysbysebion teledu. Yn sgil adolygiad gan y Llywodraeth Brydeinig, efallai y bydd cyfyngiadau hysbysebu newydd yn cael eu cyflwyno yn ymwneud â chysylltiad plant â bwydydd sy'n cynnwys llawer o fraster, halen a siwgr.

Cynlluniau'r darlledwyr

Mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ran hollbwysig i'w chwarae o ran darparu cynnwys i blant

Er mwyn cyrraedd plant heddiw a chenedlaethau'r dyfodol, mae angen i ddarlledwyr fanteisio ar y cyfleoedd mae'r rhyngwyd yn eu cynnig er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd ifanc yn cael mynediad at raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel, ond mewn ffyrdd sy'n addas ac yn adlewyrchu eu harferion gwyllo.

Gwnaethom ofyn i'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol nodi cynlluniau i ddangos i ni sut y byddant yn gwella eu darpariaeth i blant o ran uchelgais creadigol, buddsoddiad a chymysgedd o genres ar draws eu hystod lawn o wasanaethau a llwyfannau, ac yn enwedig nodi sut y byddant yn defnyddio'r rhyngwyd.

Mae pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn cydnabod bod angen arloesi, ac maen nhw wedi adolygu eu darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd ifanc yng ngoleuni ein canfyddiadau. Mae'r adran ganlynol yn crynhoi eu hymatebion sy'n cynnwys ymrwymiad o'r newydd i'w gwasanaethau presennol a buddsoddiad newydd mewn mwy o gynnwys gwreiddiol o ansawdd uchel ar draws eu gwasanaethau teledu a digidol.

⁶ Ofcom, 2019. Ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0021/134832/Ofcom-childrens-content-review-Publish.pdf

ITV

"ITV makes a significant contribution to children's media in the UK, through the CITV channel which offers original commissions including Scrambled! and Spy School. CITV is the only main linear channel on free-to-air TV that regularly broadcasts content for 6-12 year olds in our weekends block. In 2019, we've increased CITV's budget for children's content by almost 10% and engaged with the Young Audiences Content Fund, aiming to commission more programmes that reflect the lives of British kids today with CITV's unique tone of voice. Our ITV News team are developing a digital news and current affairs service aimed at teenagers, an exciting next step for ITV News."

- Carolyn McCall, Prif Weithredwr, ITV

Mae gan ITV sianel fasnachol benodol i blant sydd wedi'i hanelu at blant 6-12 oed, sef CITV. Ar ben hynny, mae'n darlledu cynnwys o CITV ar yr un pryd ar brif sianel ITV ar fore dydd Sadwrn a bore dydd Sul. Mae ITV hefyd yn cynnig adran benodol ar gyfer CITV ar ei chwaraewr ar-alw, ITV Hub.

Yn ogystal â'i ddarpariaeth bresennol, mae ITV wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- cynyddu cyllideb CITV gan bron i 10% yn 2019, fel bod ITV yn gallu comisiynu mwy o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant 6-12 oed. Bydd y cynnwys hwn hefyd ar gael ar ôl ei ddarlledu ar ITV Hub; a
- datblygu cynnwys newyddion a materion cyfoes newydd ar-lein ar gyfer plant 12-15 oed.

Channel 4

"Public service broadcasters have a significant role to play in providing children with access to high-quality, original programmes that reflect and are relevant to their lives and interests. Channel 4 has always had an incredibly powerful connection with young people and we are excited to be supercharging our existing provision for children by investing in a new teens strand on social platforms, offering short and mid-form original content. This will play a vital role in filling a gap in the market's provision of innovative and trusted public service content for this younger teens audience."

- Ian Katz, Cyfarwyddwr Rhaglenni, Channel 4

Mae gan Gorfforaeth Channel 4 ("Channel 4") gylch gwaith i gynhyrchu rhaglenni sy'n apelio at blant hŷn, a ddiffinnir gan Channel 4 fel plant 10-14 oed, ac oedolion ifanc. Hefyd, mae'n darparu cynnwys addysgol i bobl ifanc 14-19 oed. Ar hyn o bryd, mae'r darlledwr yn cyflawni ei gylch gwaith drwy gomisiynu rhaglenni prif ffrwd i deuluoedd sy'n apelio'n benodol i blant hŷn yn ystod oriau brig a chyn 9pm, fel *Lego Masters*; a rhaglenni sy'n dysgu sgiliau bywyd nad ydynt o angenrheidrwydd yn cael eu dysgu gartref neu yn yr ysgol.

Yn ogystal â'i ddarpariaeth bresennol, mae Channel 4 wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- datblygu gwasanaeth digidol newydd ar gyfer pobl ifanc 13-16 oed; bydd yn canolbwyntio ar sianel YouTube newydd a bydd yn cynnwys comisiynau newydd yn arbennig ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau.

Channel 5

"We are pleased to have taken part in Ofcom's children's content review and its positive outcome. We have committed to doubling our investment in UK original content for Milkshake! on Channel 5, bringing even more quality programming with local flavour to our audience of British pre-schoolers."

- Alison Bakunowich, SVP, Rheolwr Cyffredinol Nickelodeon y DU ac Iwerddon, Viacom

Mae Channel 5 yn darlledu rhaglenni i blant 2-7 oed o dan ei frand 'Milkshake!' yn ystod y bore ar ei brif sianel.

Yn ogystal â'i ddarpariaeth bresennol, mae Channel 5 wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- cynyddu cyllideb Milkshake!;
- cynyddu oriau rhaglenni gwreiddiol o 29 i 50 erbyn 2021, sy'n cyfateb i gynnydd o 67% ynghyd â dyblu cynhyrchiad o 160 o benodau unigol i fwy na 300; a
- pharhau i arloesi o ran ymgysylltu â rhieni a gofalwyr drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Ein barn

Gyda'i gilydd mae gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gyfrifoldeb i ddarparu amrywiaeth o raglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant. Fodd bynnag, mae gan bob darlledwr gynulleidfa darged wahanol, yn ogystal â strategaethau creadigol a masnachol gwahanol. Rydym ni o'r farn bod y cynlluniau hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn a, gyda'i gilydd, maen nhw'n ymateb yn gadarnhaol i'r bylchau a nodwyd yn ein hadolygiad. Rydym yn cydnabod hefyd bod y cynlluniau hyn wedi'u datblygu yn wyneb heriau yn y farchnad. Mae'n bwysig bod y cynlluniau hyn yn cynnig rhywbeth newydd a gwreiddiol i gynulleidfa oed ifanc ledled y DU.

Mae'r sylw a roddwyd i'r maes hwn gan y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn galonogol yn ogystal â'r camau maen nhw wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'n pryderon. Ar ôl i'r cynlluniau hyn gael eu rhoi ar waith yn llawn, rydym ni'n credu y byddant yn gwneud cyfraniad pwysig at yr ystod a'r amrywiaeth o gynnwys newydd yn y DU ar gyfer plant ar draws ardaloedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Yn benodol:

- Rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel ar gyfer plant hyn ar draws y genres:** mae ITV a Channel 4 yn cynnig darlledu rhaglenni newydd sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc yn eu harddegau. Bydd ITV yn canolbwyntio ar ddarpariaeth arloesol o newyddion a materion cyfoes, a bydd Channel 4 yn canolbwyntio ar gynnwys ffurf fer a ffurf ganolig sy'n ymgysylltu â phobl ifanc 13-15 oed ar lwyfan allweddol ar gyfer y grŵp oedran hwn (YouTube).
- Rhaglenni sy'n helpu plant i ddeall y byd o'u cwmpas:** mae ITV wedi comisiynu ymchwil a fydd yn dylanwadu ar ddarpariaeth newydd o newyddion a materion

cyfoes ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau. Bydd y cynnig hwn yn datblygu dros amser, a byddai'n adeiladu ar enw da ITV am adrodd newyddion dibynadwy a chywir. Rydym hefyd yn nodi cynlluniau Channel 4 i ychwanegu cynnwys sy'n ymdrin â materion amserol yn ei wasanaeth newydd.

- iii) **Rhaglenni gwreiddiol o ansawdd uchel sy'n caniatáu i blant y DU weld eu bywydau ar y sgrin:** mae pob un o'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol wedi ymrwymo i fuddsoddi cyllid ychwanegol mewn rhaglenni gwreiddiol newydd i blant o wahanol oedrannau. Mae Channel 5 yn targedu plant cyn oed ysgol, mae ITV yn targedu newyddion at blant 6-12 a 12-15 oed, ac mae Channel 4 yn targedu rhai 13-15 oed.

Mae'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol hefyd wedi nodi eu bod yn bwriadu ymgysylltu â Chronfa Cynnwys i Gynulleidfaeodd Ifanc y Llywodraeth. Nod y gronfa yw ysgogi darpariaeth o gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i gynulleidfaeodd iau, ac mae ei flaenoriaethau'n cynnwys cefnogi rhaglenni gwreiddiol sy'n helpu i wella dealltwriaeth cynulleidfaeodd o'r byd ac sy'n adlewyrchu hunaniaeth ddiwylliannol y DU.⁷

Y camau nesaf

Byddai o fantais tymor hir i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ddenu gwylwyr ifanc nawr er mwyn creu cynulleidfaeodd y dyfodol. Mae ein hymchwil yn awgrymu bod cynhyrchu rhaglenni gwreiddiol yn y DU y bydd plant yn eu gwerthfawrogi yn rhan bwysig o hyn. Mae cynlluniau'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus masnachol yn gam cadarnhaol a sylweddol, ond bydd yn rhaid iddynt barhau i arloesi o ran darparu cynnwys difyr i blant a phobl ifanc yn eu harddegau dros y blynyddoedd nesaf.

Byddwn yn monitro sut yr eir ati i roi'r cynlluniau hyn ar waith, yn ogystal ag agweddau plant a'u defnydd o gyfryngau. Byddwn hefyd yn ystyried effeithiolrwydd darpariaeth y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus fel rhan o'n Hadolygiad o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, fel rhan o'r broses nesaf o ail drwyddedu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus. Ar ben hynny, byddwn yn parhau i edrych ar berfformiad y BBC i ddarparu ar gyfer plant fel rhan o'n cyfrifoldebau o dan Siarter a Chytundeb y BBC.

⁷ Mae'r Gronfa Cynnwys i Gynulleidfaeodd Ifanc (YACF) yn gronfa o £57 miliwn y byddai modd cystadlu amdani, ac mae'n cael ei rheoli gan y BFI a chafodd ei lansio ym mis Ebrill 2019. Mae mwy o fanylion ar gael yma:

<https://www.bfi.org.uk/supporting-uk-film/production-development-funding/young-audiences-content-fund>